

## ARTES MUNDI

### Rheolwr Prosiect ar gyfer Rhaglen Gymunedol AM10 GWYBODAETH A PHECYN GWNEUD CAIS

## CYFLWYNIAD

Artes Mundi yw'r prif sefydliad celfyddydau gweledol rhyngwladol ei ffocws yng Nghymru. Mae'n creu cyfleoedd unigryw i unigolion a chymunedau lleol ymgysylltu'n greadigol â phynciau llosg ein hoes mewn ffyrdd sy'n taro tant gyda phob un ohonom. Rydym wedi ymrwymo i ysgogi deialogau a dadleuon, yn rhyngwladol ac yn lleol, sy'n datblygu gwell dealltwriaeth o'n hunain, o eraill, ac o'r berthynas rhwng diwylliannau cyfarwydd a phellennig.

Yn 2023 bydd Artes Mundi yn lansio AM10, ein degfed arddangosfa a gwobr eilflwydd, sy'n dathlu 20 mlynedd o gyflwyno celf gyfoes arloesol rhyngwladol yng Nghymru. Fel yr iteriad Cymru gyfan cyntaf o'r prosiect, cynhelir AM10 ar draws pedair dinas gyda phum lleoliad partner. Bydd AM10 yn cyflwyno cyfle unigryw i ni ymgysylltu'n ystyrlon â phobl o bob cwr o Gymru drwy brosiectau cydweithredol sy'n cynnwys eu lleisiau a'u cyfraniadau'n uniongyrchol wrth gynnwys treftadaeth leol mewn sgysiau am faterion byd-eang.

Gan weithio gyda phartneriaid ar draws Cymru gyfan, gan gynnwys Chapter; Oriel Gelf Glynn Vivian, Cymdeithas Cwrdaid Caerdydd, Oriel Davies, Mostyn a Plant y Cymoedd, byddwn yn ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru i greu cysylltiadau a chynnal dialog ystyrlon rhwng celf gyfoes a threftadaeth leol. Ein ffocws yw amlygu profiadau a hanes y bobl hyn a'u hangerdd dros dreftadaeth a chymunedau lleol.

## Y RÔL

Bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda thîm Artes Mundi a'n partneriaid prosiect i gydlynu a chefnogi'r gwaith o gyflenwi rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys prosiectau gweithdai tymor byr, digwyddiadau cyhoeddus, cyfleoedd hyfforddiant a phodlediadau. Mae'n

gyfle cyffrous i groesawu talent newydd i'n tîm curadurol a rhaglen ymroddedig a chefnogi artistiaid, curaduron, awduron, ac eraill sy'n gweithio yn y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

Yn adrodd i Letty Clarke, Curadur Rhaglenni Cyhoeddus, a Nigel Prince, Cyfarwyddwr, bydd gan y Rheolwr Prosiect rôl allweddol yn cyflenwi a dylunio holl weithgarwch y rhwydwaith, yn ogystal â chyfrannu at ddyluniad rhaglen gyhoeddus ehangach Artes Mundi.

### CANLYNIADAU ALLWEDDOL I'R PROSIECT

- Bydd ystod ehangach o bobl yn gysylltiedig â threftadaeth o ganlyniad i'r prosiect.
- Gellir adnabod ac esbonio treftadaeth o bob rhan o Gymru yn well drwy eu cynnwys yn arddangosfa a rhaglen gyhoeddus AM10.
- Bydd pobl wedi datblygu sgiliau newydd, gan gynnwys cyfranogwyr cymunedol, y rhai wedi'u contractio i weithio ar y prosiect, datblygiad sefydliadol Artes Mundi a datblygiad sefydliadol ein partneriaid.
- Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, a fydd yn arwain at newid o ran syniadau a gweithredoedd.

### DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd y Rheolwr Prosiect yn:

- Trefnu a mynychu cyfarfodydd partner, gan gynnal trosolwg o holl weithgarwch y prosiect.
- Gweithio ochr yn ochr â'r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus fel pwynt cyswllt gyda'r holl Gynhyrchwyr Ymgysylltu, Contractwyr ac Artistiaid wrth i'r prosiect esblygu, gan gyfrannu cefnogaeth a mewnbwn creadigol fel y bo'n briodol.
- Goruchwylio a chyflawni pob agwedd ar amserlennu'r rhaglen, cydlynu elfennau logistaidd, rheoli briffiadau mewnol/allanol ar gyfer cyflawni'r holl ddigwyddiadau cyhoeddus yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod asesiadau risg a phrotocolau diogelu yn cael eu

cwblhau a'u deall gan bob parti a sicrhau bod cyfranogwyr wedi cwblhau'r ffurflenni cydsyniad priodol.

- Cynnal trosolwg o gynhyrchiant Podlediad AM10, gan gynnwys cynorthwyo i gydlynu sesiynau recordio, cyd-ddatblygu a chyfathrebu'r storïau a'r naratifau sy'n datblygu ym mhob pennod i'r holl bartneriaid a chefnogi'r broses olygyddol.
- Mynychu a chynorthwyo gyda rhai o'r gweithdai a'r digwyddiadau, gan gynnwys rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn ogystal â theithio i wahanol safleoedd ledled Cymru.
- Cynorthwyo i drefnu gofynion mynediad i holl gyfranogwyr a chynulleidfaoedd prosiectau, er enghraifft, trefnu dehonglwyr BSL ar gyfer cyfarfodydd penodol, neu sicrhau bod lleoliadau yn hygyrch i'r unigolion a'r grwpiau yr ydym yn gweithio gyda hwy.
- Cynorthwyo gyda'r trefniadau i gynnwys yr unigolion a'r grwpiau yr ydym yn gweithio gyda hwy, er enghraifft, gwneud yn siŵr fod arferion ffydd grŵp yn cael eu parchu wrth ymweld â lleoliadau neu gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus.
- Cynorthwyo'r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus a'r Swyddog Marchnata a Chyfathrebu i hyrwyddo digwyddiadau cyhoeddus a phodlediadau.
- Cynorthwyo'r Gwerthuswr Annibynnol gyda'r holl werthusiadau prosiect, gan gynnwys cynorthwyo gyda'r broses casglu data ac adborth yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo i goladu gwybodaeth ar gyfer llunio adroddiadau a gwerthusiad ar gyfer Artes Mundi.
- Cyfrannu at holl Gyfarfodydd Tîm a Rhaglen Artes Mundi.
- Meddu ar ddealltwriaeth o'r model cymdeithasol o anabledd a syniadau am sut y gellir ei gymhwyso i weithio gydag artistiaid, cyfranwyr a chynulleidfaoedd.

## YR UNIGOLYN

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad o weithio ym maes y celfyddydau gweledol, sy'n angerddol am arfer cyd-greu ac sy'n canolbwyntio ar bobl, ac sy'n arddangos ymrwymiad i ymgysylltu ag artistiaid, awduron a churadwyr celf weledol gyfoes yng Nghymru. Mae

rhai o agweddau'r rôl hon yn greadigol eu natur, fodd bynnag, mae'r brif rôl yn ymwneud â chynllunio a chydlynu.

Rydym yn awyddus i weithio gyda phobl sydd:

- Yn agored, chwilfrydig ac angerddol am ddiwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru
- Â diddordeb mewn rhannu eu syniadau ac sy'n awyddus i wrando ar eraill
- Yn mwynhau dysgu pethau newydd ac wynebu heriau newydd
- Yn gallu gweithio'n annibynnol ond sy'n teimlo'n gyfforddus i ofyn am gymorth ac arweiniad

Bydd y rôl hon yn cael ei chefnogi'n bennaf gan y Curadur Rhaglenni Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr, ond byddwch hefyd yn dod i gysylltiad ac yn gweithio gyda thîm cyfan Artes Mundi. Hefyd, byddwch yn dod i gysylltiad â'n partneriaid rhaglen a fydd, yn ysbryd arfer cyd-greu, yn cynnig adborth a mewnelediadau a fydd yn eich cynorthwyo yn eich rôl.

### CYMWYSTERAU, ADDYSG A PHROFIAD

O leiaf tair blynedd o brofiad yn gweithio ym maes celf weledol gyfoes a gweithio'n uniongyrchol gydag artistiaid. Byddai rhywun sydd â phrofiad o gynorthwyo neu gyflenwi prosiectau celf sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn ddymunol iawn. Mae siaradwr Cymraeg neu Arabeg yn ddymunol.

### SGILIAU A GALLUOEDD

- Hwyluso gofod diogel a dewr ar gyfer rhannu ar y cyd
- Ymchwilio, trefnu a chynllunio adnoddau, cyfleoedd a digwyddiadau a chynhyrchu prosiectau gorffenedig a chyflawni amserlenni.
- Rheoli prosiectau a digwyddiadau
- Meddu ar agwedd bositif at ddatrys problemau
- Dadansoddi, blaenoriaethu a threfnu eu gwaith yn annibynnol, yn ogystal â bod yn rhan o dîm Artes Mundi
- Mwynhau dysgu pethau newydd ac wynebu heriau
- Gweithio ar nifer o dasgau ar yr un pryd

- Sgiliau cyfrifiadurol cryf gan gynnwys pecyn MSOffice gan gynnwys Word, Outlook ac Excel
- Gwaith gweinyddu celf gan gynnwys; gweithdrefnau sefydliadol, gweithio gyda chronfeydd data, systemau swyddfa a TG
- Gweithio gyda phobl o wahanol gefndiroedd a phrofiadau bywyd gwahanol ar draws ystod eang o lefelau a chyfrifoldebau
- Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu llafar cryf
- Rheoli cyllideb
- Agwedd hyblyg at waith, gan ystyried anghenion y sefydliad a chydweithwyr wrth rannu eich syniadau a gwranddo ar syniadau pobl eraill
- Y gallu i eirioli'n hyderus drosoch eich hun ac eraill, neu'r gallu i ofyn am gymorth gan eraill y tu mewn a'r tu allan i dîm staff Artes Mundi pan fydd angen

Mae rhai o'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu ymhellach yn y rôl hon yn cynnwys:

- Sefydlu prosesau gwneud penderfyniadau cydweithredol mewn rhwydweithiau yng nghyd-destun Cymru
- Gofynion cynllunio a gwireddu prosiectau cenedlaethol uchelgeisiol
- Profiad o arferion gwerthuso a sut y gellir defnyddio hyn wrth gynllunio ar gyfer prosiectau a gwneud ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.
- Y gallu i feddwl yn strategol ac arwain ffyrdd arloesol newydd i ddatblygu dulliau cyfathrebu ar gyfer rhaglenni
- Y gallu i feithrin perthnasoedd proffesiynol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- Datblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar, gweithio mewn tîm a thrafod

**Beth fyddwn ni'n ei ddweud i'ch cynorthwyo i wneud eich gwaith gorau**

Bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithio'n agos ac ar y cyd â'r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr a fydd yn gyfrifol am sicrhau eich

bod yn derbyn cefnogaeth lawn yn eich gwaith. Byddwch mewn cysylltiad rheolaidd drwy Zoom yn ogystal â chyfarfodydd mewn person.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd sy'n meithrin cyfranogiad ystyrlon a phrofiadau dysgu cadarnhaol. Bydd manteision bod yn dîm craidd bychan yn caniatáu i chi gael cyswllt rheolaidd, wythnosol ag aelodau allweddol o staff yn ogystal â chyfrannu at gyfarfodydd cynllunio a rhaglennu ffurfiol.

Mae Artes Mundi yn ymroddedig i sicrhau y gallwch wneud eich gwaith gorau a byddant yn gallu cefnogi gydag anghenion mynediad fel y bo'n briodol o fewn y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael.

Byddwch yn cael cyfleoedd sylweddol yn y swydd i ddatblygu eich rhwydweithiau. Yn ogystal â'r gefnogaeth a ddarperir gan Artes Mundi, bydd cyfle i ymgysylltu ag artistiaid a churaduron rhyngwladol a'r orielau sy'n eu cynrychioli. Byddwn hefyd yn datblygu cysylltiadau rhyngoch chi a phartneriaid eraill ledled Cymru. Bydd gwahoddiadau i agoriadau arddangosfeydd a rhwydweithio creadigol, digwyddiadau a chyfleoedd hefyd yn rhan o'r rôl.

### ARFERION CYNHWYSOL

Mae Artes Mundi yn anelu at fod yn sefydliad cwbl gynhwysol gyda gweithlu a chynulleidfa y mae eu profiadau bywyd mor amrywiol â'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn hollbwysig i'n llwyddiant yn y dyfodol a'n gallu i barhau i gyfrannu at ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru a'r DU.

Mae Artes Mundi wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau cydraddoldeb yn ein holl waith ac rydym yn cydweithio'n frwd i greu diwylliannau gwaith cynhwysol. Rydym yn cydnabod bod yna lawer o bobl nad yw eu profiadau a'u safbwyntiau yn cael eu cynrychioli'n dda yn ein gwaith nac yn y sector celfyddydau yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys pobl sy'n amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol, ac sy'n profi hiliaeth yn ein cymdeithas, pobl fyddar, anabl a niwroamrywiol a phobl o gymunedau dosbarth gweithiol.

Rydym yn annog yn benodol ymgeiswyr sy'n gallu siarad ag un neu fwy o'r profiadau a'r diwylliannau hyn, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Noder y bydd yr holl gyfweiliadau'n cael eu cynnal ar-lein, gan ddefnyddio Zoom neu blatfformau amgen ar gais. Rhoddir gwybodaeth a chyfarwyddiadau pellach i ymgeiswyr sy'n derbyn gwahoddiad i gyfweiliad. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau o dîm Artes Mundi.

### TELERAU PENODI

Cynigir y penodiad hwn fel contract 7 mis ar sail lawrydd. Mae ffi gynhwysol o £10,000 ar gael ar gyfer 3 diwrnod yr wythnos a ragwelir, i'w dalu mewn taliadau misol drwy anfoneb.

Yr oriau gwaith arferol yw 9.30am-5.30pm. Gofynnir i ddeiliad y swydd gyflawni ac ymgymryd â gwaith ar rai nosweithiau a phenwythnosau. Rhoddir rhybudd priodol ar gyfer hyn.

### SUT I WNEUD CAIS

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y rôl hon gan ddefnyddio'r **Ffurflen Gais** a'r **Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal** a'u cyflwyno drwy e-bost i [opportunities@artesmundi.org](mailto:opportunities@artesmundi.org) gan ddyfynnu **Rheolwr Prosiect** yn y llinell pwnc. Mae manylion yr opsiynau amgen ar gyfer gwneud cais yn y nodiadau canllaw yn y ddogfen hon.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Llun 4 Medi 2023

**Cynhelir cyfweiliadau:** Dydd Llun 18 Medi

**Dyddiad dechrau a ffafrir:** Cyn gynted â phosibl (er y gellir trafod hyn yn y cyfweiliad)

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

## Rheolwr Prosiect ar gyfer Artes Mundi 10 Ffurflen Gais

Cyfeirnod  
At ddefnydd swyddfa yn unig

Enw(au) cyntaf	Cyfenw
Cyfeiriad	
Cod Post	
Ffôn	Symudol
E-bost	

Sut glywsoch chi am y rôl yma?

*Bydd yr adran hon yn cael ei gwahanu â'ch ffurflen gais wrth ei derbyn ac ni fydd yn chwarae unrhyw ran yn y broses ymgeisio.*



Cyfeirnod At ddefnydd swyddfa yn unig
--

## DATGANIAD ATEGOL

Dyma'ch cyfle i sôn yn benodol wrthon ni pam rydych yn dymuno gwneud cais am y swydd a beth fyddai'n eich gwneud chi yn Curadur Cynorthwyol Rhaglenni Cyhoeddus gwych gydag Artes Mundi.

Soniwch wrthon ni am y ffordd y byddech yn mynd at eich gwaith a'r rôl. Defnyddiwch eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau blaenorol a phresennol gan roi enghreifftiau sy'n dangos sut y byddech yn cymhwyso'r rhain at syniadau, gwerthoedd a dulliau gweithio sy'n berthnasol i'r rôl.

Fel arweiniad i strwythuro'ch datganiad, efallai yr hoffech ystyried rhai neu'r holl o'r cwestiynau isod.

- Pam rydych chi'n gwneud cais am y swydd hon?
- Soniwch wrthon ni am eich diddordebau ysol/ymrwymiad i ddiwylliant a'r celfyddydau
- Beth rydych yn ei fwynhau am ddysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau?
- Sut rydych yn blaenoriaethu tasgau?
- A oes ffyrdd penodol y byddwch yn cynllunio ac yn datrys problemau?
- Sut rydych chi'n gweithio gyda phobl eraill ac yn annibynnol?

Yn gyffredinol, ni ddylai'ch datganiad fod yn hirach na dwy ochr A4 mewn ffont 11pt fan leiaf. Neu, fel y manylir arno yn y nodiadau arweiniol, gellir cyflwyno hwn ar ffurf fideo neu recordiad sain. Os byddwch yn defnyddio'r dull yma, ni ddylai fod yn hirach na 10 munud fan bellaf.

Os byddwch yn penderfynu cyflwyno fideo neu recordiad sain, gwnewch yn siŵr fod cyn lleied o sŵn yn y cefndir ag sy'n bosibl. Peidiwch ag ychwanegu effeithiau eraill at y cyflwyniadau hyn – dim ond siarad yn uniongyrchol ac yn glir i'r microffon neu'r camera. Gall recordiadau fideo a sain greu ffeiliau mawr a allai fod yn anodd eu hanfon drwy e-bost felly

anfonwch atom ddolenni a chyfrineiriau i'ch ffeiliau naill ai ar YouTube, Vimeo neu Soundcloud neu eu e-bostio atom gan ddefnyddio Wetransfer ar [opportunities@artesmundi.org](mailto:opportunities@artesmundi.org) gyda "Rheolwr Prosiect" yn y llinell bwnc.

Sylwch, dyma leoliadau pob un o'r artistiaid sydd ar y rhestr fer – rydym yn eich annog i ystyried hyn gan y bydd gofyn i Rheolwr Prosiect deithio i'r lleoliad y mae'r artist dan sylw yn arddangos ynddo:

- Mae Rushdi Anwar yn arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Mae Carolina Caycedo yn arddangos yn Oriel Davies, y Drenewydd
- Mae Alia Farid yn arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Mae Naomi Rincón Gallardo yn arddangos yn Chapter, Caerdydd
- Mae Taloi Havini yn arddangos ym Mostyn, Llandudno
- Mae Nguyễn Trinnh Thi yn arddangos yn Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe
- Mae Mounira Al Solh yn arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Cyfeirnod  
At ddefnydd swyddfa yn unig

## Cyflogaeth gyfredol neu ddiweddaraf (Gyda chyflog neu ddigyflog)

Enw a chyfeiriad y cyflogwr	
Teitl y swydd	Dyddiadau'ch cyflogaeth
Cyfnod rhybudd sydd ei angen os o gwbl	
Rhowch fraslun byr o'ch prif ddyletswyddau a/ neu gyfrifoldebau	

## artesmundi

Gwybodaeth o Gymraeg llafar neu ieithoedd eraill. Nodwch yr iaith a'r lefel (e.e. mynediad, sylfaen, canolradd, uwch, hyfedrus)

Nid oes angen ail iaith i'r swydd hon

--

Cyflogaeth arall a gwaith gwirfoddol (Gyda chyflog a/neu ddigyflog)

Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

O: I:	Enw a chyfeiriad y cyflogwr	Rôl a chyfrifoldebau	Rhesymau am adael/ symud ymlaen

## Addysg a Hyfforddiant

Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau a gafwyd a'r rheini rydych yn eu ceisio ar hyn o bryd ac unrhyw hyfforddiant rydych wedi'i wneud neu sy'n parhau.

Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

Ysgol/ Coleg/ Prifysgol/ Darnarvdd	Pynciau a graddau a/neu deitl y cwrs	Dyddiadau y'u cafwyd

## Gwirio

Cadarnhaf, hyd y gwn i, fod yr wybodaeth uchod yn gywir.

Cadarnhaf nad ydw i mewn addysg lawn-amser (12 awr neu ragor o astudio ffurfiol yr wythnos)

Cadarnhaf fod gen i hawl i weithio yn y DU

Deddf Diogelu Data

Noder pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon ei bod yn rhoi caniatâd iddi gael ei defnyddio at y broses recriwtio. Cedwir yr holl fanylion yn gyfrinachol.

Llofnodwyd:

Dyddiad:

Noder y bydd yn rhaid cwblhau ein Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal ar wahân ac ni fydd yn cael ei defnyddio at lunio rhestr fer, yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bydd cwblhau hon yn helpu Artes Mundi yn eu hymrwymiad i fod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal.

## Canolwyr

Rhowch fanylion dau ganolwr, y naill yn gyflogwr presennol i chi neu'ch cyflogwr diweddaraf os nad ydych mewn gwaith ar hyn o bryd. Gallai'r llall fod yn rhywun a all fynegi barn broffesiynol ar eich gwaith a'ch gallu i berfformio'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani.

Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn cyfweliad.

Enw	Enw
Teitl swydd	Teitl swydd
Enw sefydliad	Enw sefydliad
Cyfeiriad	Cyfeiriad
Rhif Ffôn Cyswllt	Rhif Ffôn Cyswllt
E-bost Cyswllt	E-bost Cyswllt
Ers pryd rydych wedi nabod y person yma a sut?	Ers pryd rydych chi'n nabod y person yma a sut?

Diolch yn fawr am eich diddordeb yn Artes Mundi ac am gymryd yr amser i gwblhau'r ffurflen gais yma